# Newidiadau i ddogfen *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* y CGC 2025/26

*Mawrth 2026*

Yn dilyn adborth ac ar ôl trafod â rhanddeiliaid, rydym yn gwneud rhai newidiadau i ddogfen *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* y CGC 2025/26. Bydd y newidiadau hyn yn weithredol ar unwaith ac wedi'u nodi yn fersiwn Mawrth 2026 y ddogfen *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol.*

**Argymhellwn eich bod yn ystyried y newidiadau isod wrth i chi wneud penderfyniadau ynghylch trefniadau eich ymgeiswyr er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â fersiwn Mawrth 2026 y ddogfen *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol.***

Mae'r newidiadau yn cael eu crynhoi isod:

1. Yn rhan **Cyflwyniad** y ddogfen, tynnwyd unrhyw gyfeiriadau at drefniadau mynediad sy'n paratoi ymgeiswyr ar gyfer y gweithle. Er y gallai fod yn ddefnyddiol ystyried amrywiaeth eang o drefniadau mynediad mewn llawer o achosion, yr hyn sy'n ofynnol yw rhoi addasiadau rhesymol ar waith sy'n dileu neu'n lleihau rhwystrau mewn asesiadau a galluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

2. Yn **adran 5.1, egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth,** newidiwyd y geirio i ddweud 'Lle mae amhariad heblaw anhawster dysgu ar ymgeisydd, dylai'r CAAA ystyried y dewis o egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth cyn gwneud cais am 25% o amser ychwanegol'. Gwnaed hyn gan y deallwn nad yw'n ymarferol nac yn briodol, dan rai amgylchiadau, i'r CAAA 'dreialu a disbyddu' egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth cyn gwneud cais am 25% o amser ychwanegol. Dylai'r CAAA ddefnyddio eu barn broffesiynol bob amser i benderfynu ar yr addasiad sydd fwyaf priodol ar gyfer asesiadau'r ymgeisydd. Byddai hyn yn seiliedig ar arsylwi yn y dosbarth, adborth gan athrawon a safbwyntiau'r ymgeisydd ei hun.

3. Yn **adran 5.16, Trefniadau eraill ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anableddau,** newidiwyd y geirio i nodi 'Byddai defnyddio ystafell amgen gyda goruchwyliaeth un i un yn berthnasol yn achos ymgeisydd â chyflwr meddygol difrifol fel ffitiau niferus, syndrom Tourette neu broblemau ymddygiadol sylweddol a fyddai'n amharu ar ymgeiswyr eraill yn yr ystafell arholi'.

   Dylai CAAA, gyda chefnogaeth uwch arweinwyr perthnasol, ymarfer eu barn broffesiynol a phenderfynu pa bryd y mae angen goruchwyliaeth un i un.

Yn ogystal â thynnu sylw at y newidiadau hyn i reoliadau'r CGC yn 2025/26, roeddem am gynnig enghreifftiau pellach i gefnogi CAAA, CADY a Chydlynwyr Trefniadau Mynediad o ran deall y dystiolaeth y gellid ei defnyddio i gefnogi gwneud cais ar-lein am 25% o amser ychwanegol. Rhaid cofio bob amser wrth goladu tystiolaeth i gefnogi cais, gan gynnwys ar gyfer unrhyw bwrpas arolygu, mai ansawdd y dystiolaeth sy’n bwysig nid faint ohoni sydd. Mae sampl cynrychiadol bach yn ddigonol, does dim angen portffolio llawn ar gyfer y pwnc.

**Enghraifft 1**

**Ymgeisydd TGAU yn astudio naw pwnc**

Un asesiad wedi'i farcio mewn pwnc sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig fel Saesneg neu Hanes, ynghyd ag un asesiad wedi'i farcio mewn pwnc rhifiadol fel mathemateg neu wyddoniaeth ac un asesiad wedi'i farcio mewn pwnc arall fel papur ITM atebion byr.

**Enghraifft 2**

**Ymgeisydd Safon Uwch yn astudio tri phwnc Safon Uwch – Llenyddiaeth Saesneg, Seicoleg a Chymdeithaseg**

Un asesiad wedi'i farcio ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg, ynghyd ag un asesiad wedi'i farcio ar gyfer Seicoleg ac un asesiad wedi'i farcio ar gyfer Cymdeithaseg.

**Enghraifft 3**

**Ymgeisydd yn astudio cymhwyster technegol Lefel 3 Galwedigaethol**

Un i ddau asesiad wedi'u marcio ar draws y cymhwyster.

**Enghraifft 4**

**Ymgeisydd yn astudio cymhwyster Lefel 2 Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol a chymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Un asesiad wedi'i farcio o'r naill gymhwyster neu'r llall.

**Enghraifft 5**

**Ymgeisydd yn ailsefyll TGAU Mathemateg ac yn astudio cymhwyster technegol Lefel 2 Galwedigaethol**

Rhoddodd ei gyn-ysgol 25% o amser ychwanegol i ymgeisydd ar gyfer arholiadau TGAU Mathemateg a Gwyddoniaeth oherwydd bod ei anhawster dysgu yn effeithio'n sylweddol mewn pynciau rhifiadol. Mae'r ymgeisydd yn ailsefyll TGAU Mathemateg ochr yn ochr â chymhwyster technegol Lefel 2 Galwedigaethol. Nid yw'n orfodol cael tystiolaeth ychwanegol gan fod modd defnyddio'r Ffurflen 8 neu'r Ffurflen 9 o'r ysgol. Gall y CADY benderfynu fodd bynnag ei fod am gael un darn o dystiolaeth asesu wedi'i marcio gan un o diwtoriaid pwnc Lefel 2 galwedigaethol yr ymgeisydd i gadarnhau bod 25% o amser ychwanegol yn addasiad priodol ar gyfer arholiadau CGaTh Lefel 2 yr ymgeisydd.

## *Enghreifftiau o dystiolaeth asesu dderbyniol*

Byddai unrhyw un o'r canlynol yn dderbyniol i'w archwilio:

- Copi o brawf mewnol neu sgript ffug arholiad wedi'i farcio sy'n dangos y defnydd o 25% o amser ychwanegol (h.y. newid lliw'r feiro neu'r ffont i ddangos yr amser ychwanegol).
- Detholiad wedi'i sganio neu gofnod digidol o brawf ar-lein/ffug arholiad yn dangos bod amser ychwanegol wedi'i ganiatáu ac wedi'i ddefnyddio'n effeithiol. Fel arall, gellid cyflwyno log y goruchwyliwr yn cofnodi bod yr ymgeisydd wedi defnyddio ei lwfans o 25% o amser ychwanegol.
- Profforma athro/athrawes y pwnc, yn cofnodi bod yr ymgeisydd wedi defnyddio'r amser ychwanegol a bod gwneud hynny wedi arwain at waith o ansawdd gwell, oedd yn fwy cyflawn a chywir. Dylai gynnwys sylw ysgrifenedig byr gan yr athro/athrawes a'r ymgeisydd (lle bo'n briodol) yn ogystal yn cadarnhau bod yr amser ychwanegol wedi'i ddefnyddio ac wedi galluogi'r ymgeisydd i ddangos ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth.
- Tystiolaeth asesu wedi'i chefnogi gan sylwadau byr, cryno gan yr athro/athrawes. Er enghraifft, mae angen amser ychwanegol ar yr ymgeisydd ac mae'n gwneud defnydd cyson o'r amser hwnnw, mae'n gwneud gwahaniaeth i ansawdd a pha mor gyflawn yw gwaith yr ymgeisydd.

## *Ymgeiswyr preifat*

Deallwn y gall fod yn fwy heriol coladu tystiolaeth yn achos ymgeiswyr preifat nad oes ganddyn nhw berthynas gyson â chanolfan.

Yn dilyn mae enghreifftiau o'r dystiolaeth y gellid ei defnyddio ynghyd â'r Ffurflenni 8 neu 9 wedi'u llenwi:

- Gosod asesiadau ar gyfer yr ymgeisydd (er enghraifft, cyn-bapurau'r corff dyfarnu). Yn achos amser ychwanegol, gallai'r ymgeisydd ddefnyddio beiro lliw gwahanol ar gyfer y 25% o amser ychwanegol sydd wedi'i ganiatáu.

- Log gwaith. Gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu log o'i ddulliau gweithio ar gyfer aseiniadau, er enghraifft, unigolyn arall yn ei gefnogi â'i ddarllen neu sillafu neu ddefnyddio technoleg i wneud hynny, a faint o amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r gwaith.

- Dangos tystiolaeth o anawsterau'r ymgeisydd yn cwblhau tasgau byr, wedi'u hamseru neu asesiadau ffurfiannol ar-lein.

- Samplau o waith. Gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu enghreifftiau o'i waith fel tystiolaeth o unrhyw anawsterau (e.e. problemau darllenadwyedd neu sillafu) neu gefnogaeth (e.e. defnyddio meddalwedd arddweud, defnyddio gliniadur gyda'r gwirydd sillafu ymlaen).

**Enghraifft o daflen glawr ar gyfer prawf mewnol / ffug arholiad gyda 25% o amser ychwanegol**

Enw'r myfyriwr:

Pwnc:

| Dyddiad:<br>**Tystiolaeth o ddefnyddio 25% o amser ychwanegol** | |
|---|---|
| ✓ | Defnyddiodd y myfyriwr 25% o amser ychwanegol |
| | Ni ddefnyddiodd y myfyriwr 25% o amser ychwanegol |

| **Beth oedd effaith yr amser ychwanegol?** | |
|---|---|
| ✓ | Cwblhaodd y myfyriwr fwy o gwestiynau/adrannau |
| | Gwnaeth y myfyriwr wella neu ymestyn ei atebion |
| | Adolygodd y myfyriwr ei atebion a'u cywiro |
| | Arall: |

| **Sylwadau/llofnod yr athro/athrawes:**<br>Defnyddiodd James 25% o amser ychwanegol yn effeithiol yn yr asesiad hwn. Mae hyn wedi ei alluogi i ateb bob cwestiwn a dangos ei wybodaeth am y pwnc yn effeithiol. Mae 25% o amser ychwanegol yn gwneud gwahaniaeth go iawn iddo. |
|---|
| **(Dewisol) Sylwadau'r myfyriwr:** |
| **Sylwer – rhaid i'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ddogfen hon ymwneud â phrawf mewnol neu bapur ffug arholiad sy'n bodoli y mae modd cael mynediad ato i'w ddangos i Arolygwr y CGC os gofynnir am hynny.** |